*CYNGOR TREF PORTHMADOG*

**PWYLLGOR CYLLID AC AMCANION CYFFREDINOL**
**yn Ystafell Glaslyn, Y Ganolfan am 7 yh nos Fawrth Ebrill 29 2025**

**COFNODION**

DRAFT

**Presennol :- Cynghorwyr :-** Aled Griffith(Cadeirydd) ; Jeremy Davies; Carol Hayes; Glenda Murray; Michael Roberts; Karena Owens
Marian Roberts ( Clerc); Elfyn Lewis ( Darpar Glerc)
**Absennol :- Cynghorwyr :-** Trefor Jones; Dr Melfyn Edwards; Llywelyn Rhys

**C1.4.25 Ymddiheuriadau:- Cynghorwyr :-** Gwilym Jones; Alwyn Gruffydd

**C2.4.25 Archwilio'r cyfrifon.** (*Mantolen a dadansoddiad o'r cyfrifon hyd at 31.3.25 sydd yn barod ar gyfer yr archwilydd mewnol ynghlwm)*

- **Cymeradwyo ac arwyddo'r Ffurflen Flynyddol**

**Penderfynwyd :-** derbyn a chymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol yn ôl cynnig Cyng Michael Roberts, Cyng Carol Hayes yn eilio. Arwyddwyd gan y Clerc a'r Cadeirydd.

- **Cymeradwyo ac arwyddo'r Rhestr Asedau**

Eglurodd y Clerc fod cyfanswm asedau'r Cyngor Tref wedi chwyddo o £40,000 oherwydd gwaith celf Howard Bowcott.
**Penderfynwyd :-** derbyn a chymeradwyo'r Rhestr Asedau yn ôl cynnig Cyng Michael Roberts, Cyng Jeremy Davies yn eilio.

- **Cymeradwyo'r Fantolen hyd at 31.3.2025**

Dangosodd y Clerc fel yr oedd categorïau'r Llyfr Arian a'r daenlen Excel yn cyfateb i'r categorïau ar y Fantolen. Dangoswyd taenlen 3 sef cymhariaeth rhwng gwariant 2023 a gwariant 2024 a nodwyd bod unrhyw wahaniaeth sylweddol yn gorfod cael ei esbonio yn y Ffurflen Flynyddol. Dangosodd hefyd y daenlen gwariant Parciau a Mannau Agored i esbonio sut yr oedd y gwariant yma yn sylweddol uwch na gwariant yllynedd.
**Penderfynwyd :-** derbyn a chymeradwyo'r Fantolen yn ôl cynnig Cyng Jeremy Davies, Cyng Glenda Murray yn eilio.

**C3.4.25 Penderfynu ar Lwfans Presenoldeb** ( Gweler Datganiad Taliadau ynghlwm)
Eglurodd y Clerc y byddai talu Lwfans Presenoldeb ar gyfer 10 Cynghorydd yn costio £4,500 y flwyddyn.
**Penderfynwyd:**- y Cynghorwyr a'r Clerc i holi beth sy'n digwydd mewn Cynghorau eraill a thrafod y mater unwaith eto yng nghyfarfod mis Mai.

**C4. 4.25 Cyflog y Clerc.** (*Mater statudol sydd yn gorfod cael ei drafod yn flynyddol)*

*Gweler dogfen NALC ynghlwm*
Cyflog presennol :- Gris 27 - £19.20 yr awr.
Cytundeb 24 awr yr wythnos.
( Bydd y Clerc newydd yn dechrau ar ris 22 - £16.93 yr awr o 1.6.25 ymlaen
Cytundeb 24 awr yr wythnos)

**Penderfynwyd :-** derbyn y wybodaeth

**C5.4.25 Biliau i'w talu – gwariant disgwyliedig**

Awdurdodwyd y taliad canlynol :-

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | UN LLAIS CYMRU | Cwrs Cynghorydd newydd Jeremy Davies 7.4.25 | £21.00 |

**C6. 4.25 Ceisiadau Cynllunio**

**(a) Rhif Cais / Application No.: C25/0299/44/CR ( wedi ebostio 16.4.25 )**
Lleoliad / Location: Tafarn Pencei, Pencei Public House, Brig Y Don, 17 - 18 Pen Y Cei, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9AT
Bwriad / Proposal: Addasiadau mewnol ac amnewid y ffenestr gromen cefn efo un newydd a gosod canopi /
Internal alterations and replace rear dormer window to rear with new one and erect
Canopy

**Penderfynwyd :- gwrthod y cais** am y rhesymau canlynol :-

- Mae'r or-ddatblygiad
- Mae'n creu llygredd sŵn
- Mae'n achosi llygredd golau
- Gall achosi ymddygiad anghymdeithasol
- Mae'n amharu ar drigolion cyfagos

yn ôl cynnig Cyng Jeremy Davies, Cyng Glenda Murray yn eilio.

**C7.4.25 Penderfynu ar drefniadau Nadolig 2025**

Eglurodd y Clerc fod R.J.Electrics yn cadarnhau nad oedd gosod coed Nadolig uwchben pob siop ar y Stryd Fawr yn opsiwn. Dangosodd lun o "goeden" Nadolig Dolgellau yllynedd. R.J.Electrics oedd wedi gosod hon ac roedd y Clerc wedi holi am bris "coeden" cyffelyb ar gyfer y Parc ond yn aros am ateb.
**Penderfynwyd :-** y Clerc i ofyn i R.J.Electrics am bris goleuadau cyffelyb ar gyfer Tremadog, Morfa Bychan Borth y Gest erbyn cyfarfod 13.5.25 yn ôl cynnig Cyng Glenda Murray, Cyng Karena Owens yn eilio.

Daeth y cyfarfod i ben am 20.15.

*Marian Roberts*
( Clerc)
30.4.25

DRAFT

DRAFT